Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

## CYFARFOD CYNTAF BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR**
**SWYDDFA'R SIR**
**LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH**
**23 MAI 2017**
**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for the

## FIRST ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER**
**COUNCIL OFFICES**
**LLANGEFNI**

**TUESDAY**
**23 MAY 2017**
**At 2.00 pm**

**R H A G L E N**

1. **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2017/18.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir a ddosberthir yn y cyfarfod.)**

2. **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2017/18.

3. **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

5. **CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EI HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR**

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.1 y Cyfansoddiad, ar ôl cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) eisoes i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 11 Mai 2017 (a gefnogwyd gan ddau Gynghorydd arall trwy ysgrifennu i'r perwyl at y Prif Weithredwr), bydd yr ymgeisydd canlynol yn rhoi cyflwyniad llafar ar ei gweledigaeth a'i gwerthoedd: -

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

**[Nodyn 1: Gofynnir i'r sawl a enwebwyd, i gyflwyno ei chynigion a'i rhaglenni i'r Cyngor, a dylid disgwyl iddi gymryd cwestiynau gan Aelodau].**

**[Nodyn 2: Ni ddylai cyflwyniadau gymryd mwy na 10 munud ac ni chaniateir i unrhyw gwestiynau o'r llawr gymryd mwy na 10 munud; caniateir dim mwy nag 20 munud felly ar gyfer yr ymgeisydd].**

6. **PENODI ARWEINYDD AR GYFER Y CYNGOR SIR**

Ethol Arweinydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (fel arfer am dymor o 5 mlynedd) yn unol ag Erthygl 7, ac yn benodol y rheolau gweithdrefn dan baragraffau 2.7.3.1 a 2.7.3.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

7. **DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR**

Arweinydd y Cyngor i roi gwybod i'r Cyngor pwy y mae wedi ei dewis / ddewis i fod

yn Ddirprwy Arweinydd (bydd raid i’r Dirprwy Arweinydd fod yn aelod o’r Pwyllgor Gwaith).

**8. TÂL AELODAU AR GYFER 2017/18**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**9. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i’r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**[Gofynnir yn garedig i Aelodau nodi y cynhelir y cyfarfod a ohiriwyd o'r Cyngor hwn (yn unol â Pharagraff 4.1.1.1.2 o Gyfansoddiad y Cyngor) am 2.00pm ar Dydd Mercher, 31 Mai, 2017].**

This page is intentionally left blank

Yn etholiad 2013 addewid ymgeiswyr Plaid Cymru i bobl Môn oedd eu bod am 'Adfer Enw Da Môn'. Mae Cynghorwyr Plaid Cymru a'r Cynghorwyr Annibynnol wedi cydweithio yn effeithiol dros y pedair blynedd diwethaf ac am adeiladu ar y llwyddiant yma.

Mae aeddfedrwydd gwleidyddol wedi datblygu dros y 4 mlynedd diwethaf ac mi fydd yn rhoi sylfaen cadarn i Gyngor Ynys Môn gychwyn ar y cyfnod nesaf. Mae'r aelodau sy'n dod at ei gilydd wedi profi bod y gallu ganddynt i roi sefydlogrwydd gwleidyddol sydd yn hanfodol er mwyn llywodraethu yn effeithiol.

Mae gan datblygiad Wylfa Newydd agweddau positif i'n hieuenctid a dyfodol teuluoedd Ynys Môn, gyda hyd at 800 o swyddi parhaol. Ond nid ydym yn derbyn y datblygiad hwn yn ddiamod. Rydym am amddiffyn buddiannau Ynys Môn a sicrhau bod unrhyw sgil effeithiau ar ein cymunedau o ganlyniad i'r datblygiad yn cael eu lliniaru gan y datblygwyr. Mae cymunedau cryf a llewyrchus yn nôd gennym.

Rydym yn gwynebu toriadau sylweddol i gyllideb yr awdurdod ac mae cynnal gwasanaethau am fod yn heriol. Byddwn yn gyrru'r agenda trawsnewid yn ei flaen er mwyn amddiffyn ein gwasanaethau rheng flaen.

Addysg

Mae'r glymblaid sydd am arwain y Cyngor yn llwyr gredu bod pob plentyn a pherson ifanc yn Ynys Môn yn haeddu'r cyfle gorau i gyrraedd eu potensial llawn -

* Rydym eisiau parhau i fuddsoddi mewn ysgolion newydd er mwyn sicrhau'r cyfleusterau gorau i addysgu ein plant.

* Rydym am gefnogi ein Hathrawon a'n Prifathrawon er mwyn sicrhau'r safonau gorau i blant Môn.

* Rydym eisiau cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meithrin sgiliau gwaith hanfodol.

Gofal

Mae Gofal Cymdeithasol o dan straen parhaol yn ein cymunedau. Rydym o'r farn bod angen cydweithio a chryfhau agweddau o'r gwaith er mwyn ymateb i'r galw -

* Cydweithio efo'r Gwasanaeth Iechyd mewn ffyrdd adeiladol i sicrhau bod cyfle gan bob unigolyn i fyw bywyd annibynnol yn eu cymunedau.

* Cryfhau gwasanaeth cefnogaeth i deuluoedd sydd eu hangen.

* Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cartrefi addas i'n hoedolion hŷn.

* Sicrhau cefnogaeth i ofalwyr sydd yn gofalu am deulu neu ffrindiau

Tai

Mae'r grŵp yn credu bod gan bawb yr hawl i gartref addas -

* Parhau i ymateb i'r angen am dai, trwy adeiladu tai cymdeithasol ein hunain a chynyddu cyflenwad cartrefi

fforddiadwy i'n pobl ifanc.

* Sicrhau bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd er mwyn ymateb i'r angen am dai.

* Sicrhau cefnogaeth i brynwyr cyntaf drwy ddefnyddio premiwm treth cyngor.

Economi/Gwaith

Mae economi a gwaith yn hanfodol er mwyn cadw ein hieuenctid yn Ynys Môn. Rydym yn credu y gallwn wneud hynny drwy -

* Sicrhau budd i fusnesau lleol yn sgìl unrhyw brosiect mawr.

* Cefnogi busnesau lleol i allu ceisio am gytundebau'r Cyngor.

* Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i bobl ifanc gyda phrentisiaethau.

Gwarchod yr amgylchedd

Mae Ynys Môn yn unigryw oherwydd yr amgylchedd naturiol sydd o'i chwmpas. Rydym am -

* Parhau i frwydro yn erbyn y peilonau.

* Amddiffyn amgylchedd naturiol Môn, sydd mor allweddol i'r sector dwristiaeth.

* Sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau ailgylchu.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **23 Mai 2017** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Fframwaith ar gyfer Taliadau i Aelodau yn 2017/18** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd / Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Pennu nifer a lefelau taliadau uwch gyflogau ar gyfer 2017/18** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

1.2 Mae'r taliadau i aelodau, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig, ar gyfer 2017/18 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Y Panel) yn ei adroddiad blynyddol dyddiedig Chwefror 2017. Gosodir allan y prif newidiadau yn yr adroddiad hwn. Mae angen adrodd i'r Cyngor ar y wybodaeth hon er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog, ynghyd â'r symiau sy'n daladwy i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau, Arweinyddion ac Is-Arweinyddion Dinesig. Mae yna gyllideb mewn lle am 2017/18 ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau.

1.3 Cynhaliwyd etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ar 4 Mai 2017. Mae Adran 26(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn pennu mai ar y 4ydd diwrnod yn dilyn etholiad bydd unigolion a oedd yn gynghorwyr cyn yr etholiad yn ymddeol a bydd aelodau sydd newydd eu hethol yn cymryd y swydd. Felly, y dyddiadau y dylid rhoi'r penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Chwefror 2017 mewn grym yw:

Deiliaid cyflogau sylfaenol - 8 Mai 2017, (ar yr amod bod yr aelod wedi llofnodi'r datganiad derbyn).

Deiliaid uwch gyflogau – o'r dyddiad y cânt eu penodi i'r swydd uwch gyflog.

Cadeirydd y Cyngor – mae cyflog dinesig yn daladwy pan fo'r cadeirydd yn parhau yn ei swydd hyd nes y bydd olynydd yn cael ei benodi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr awdurdod, sy'n dilyn yr etholiad.

## 2.0 Taliadau i aelodau etholedig prif gynghorau

### Cyflog sylfaenol

2.1 Mae’r Panel wedi penderfynu y bydd cynnydd o £100 yn lefel y cyflog sylfaenol i aelodau’r prif gynghorau (sy’n cyfateb i 0.75%). Dyma’r cynnydd cyntaf mewn tair blynedd. Bydd y cyflog sylfaenol yn 2017/18 ar gyfer aelodau etholedig felly’n **£13,400.**

### Uwch gyflogau

2.2 Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau y mae’n eu talu, hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel. Mae’r nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn am 2017/18 yn parhau i fod yn 15 ac mae’r ffigwr hwn yn dal i gynnwys cyflogau dinesig. Ar gyfer 2015/16 a 2016/17, penderfynodd y Cyngor ddyrannu uwch gyflogau i 14 o ddeilyddion swyddi, a hynny er mwyn lleihau costau democrataidd.

2.3 Nid yw’r elfen cyfrifoldeb uwch gyflogau yn cael ei gynyddu, ond bydd deiliaid uwch gyflog yn derbyn y cynnydd yn y cyflog sylfaenol. Bydd lefelau uwch gyflogau 2017/18 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, felly, yn daladwy fel a ganlyn:

| **Uwch Gyflogau (sy’n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£43,100**<br>**£30,100** |
| **Band 2** | Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith – Lefel 1<br>Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith – Lefel 2 | **£26,100**<br>**£23,500** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y’u telir)<br>Lefel 1<br>Lefel 2 | <br>**£22,100**<br>**£20,100** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf* | **£22,100** |
| **Band 5** | Arweinydd grŵp gwrthbleidiol arall* | **£17,100** |
| ***** Rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf. Mae’r amod bod rhaid i arweinydd grŵp gwrthbleidiol neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn cymhwyso am uwch gyflog yn aros yr un fath. | | |

**Band 2 – Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith**

2.4 Mae’r disgresiwn i dalu dwy lefel o daliadau ar gyfer aelodau o’r Pwyllgor Gwaith yn parhau. Ym Môn, £26,100 yw lefel 1 a £23,500 yw lefel 2. Mae Adroddiad Chwefror 2017 y Panel yn nodi:

“…Nid rôl y Panel yw penderfynu ar strwythur cabinetau awdurdodau lleol, felly mae’r penderfyniadau yn parhau i roi hyblygrwydd i bob cyngor sy newydd ei ethol benderfynu ar ystod briodol o bortffolios i ddiwallu anghenion lleol, gan gydnabod bod amrywiaeth anochel yn y lefel o gyfrifoldeb ac yn y llwyth gwaith.”

2.5 Ar gyfer 2016/17, bu i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid talu cyflogau lefel 1 i Aelodau’r Pwyllgor Gwaith.

**Band 3 – Cadeiryddion Pwyllgorau**

2.6 Mae’r disgresiwn i dalu dwy lefel o daliadau i Gadeiryddion Pwyllgorau hefyd yn parhau. Y ddwy lefel o daliadau ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau (os y’u telir) yw £22,100 ar lefel 1 a £20,100 ar lefel 2. Mae Adroddiad Chwefror 2017 y Panel yn nodi:

“Mae’r Panel yn dal i fod o’r farn nad yw poblogaeth yr awdurdod yn effeithio fel rheol ar y cyfrifoldeb a’r swyddogaeth sy’n gysylltiedig â chadeirio pwyllgor. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth bod cyfrifoldeb a llwyth gwaith penodol rhai cadeiryddion yn fwy nag eraill, ac mae hyn wedi bod yn bwnc trafod parhaus inni. Rydym ni o’r farn y dylid adlewyrchu hyn yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol.”

2.7 Ar gyfer 2016/17, bu i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid talu cyflogau lefel 1 i Gadeiryddion Pwyllgorau, os y’u telir.

**Penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig**

2.8 Mae’r Panel yn parhau o’r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau talu sy’n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb yn hytrach na phoblogaeth. Gall cyngor benderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig.

2.9 Mae’r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y’u telir) ar y lefelau canlynol yn daladwy ac y byddant yn cael eu cymhwyso gan brif gynghorau yn ôl yr hyn sy’n briodol ym marn bob prif gyngor unigol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwyliedig:

| **Cyflogau Dinesig (sy’n cynnwys y Cyflog Sylfaenol):** | |
|---|---|
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | **1 - £24,100**<br>**2 - £21,600**<br>**3 - £19,100** |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) | **1 - £18,100**<br>**2 - £16,100**<br>**3 - £14,100** |

2.10 Ar gyfer 2016/17, bu i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid talu cyflogau lefel 3 i’r Pennaeth Dinesig a’r Dirprwy Bennaeth Dinesig.

**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

2.11 Bu i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y penderfyniadau uchod ar gyfer 2017/18 yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth 2017, pryd y penderfynwyd:

*“Argymell i’r Cyngor y dylai:*

*(i) aelodau’r Pwyllgor Gwaith dderbyn taliadau lefel 1*
*(ii) Cadeiryddion Pwyllgorau, os y’u telir, dderbyn taliadau lefel 1*
*(iii) Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor dderbyn taliadau lefel 3 (cyflogau dinesig)”*

**Y ffactorau allweddol sy’n sail i benderfyniadau’r Panel**

2.12 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw’r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychiolaeth gymunedol a chymryd rhan yn y gwaith o graffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod sy’n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

2.13 Mae’n rhaid talu’r cyflog a’r costau sydd wedi’u pennu yn llawn i bob aelod, ac eithrio bod unigolyn wedi dewis yn annibynnol a gwirfoddol yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod i ildio’r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau yn cael eu rhoi dan bwysau i hepgor rhai o'r cyflogau yn cael ei osgoi. Mae’r Panel yn ymgynghori ar pro forma ar gyfer cyhoeddi'r Datganiad o Daliadau a Wnaed a fydd yn cynnwys yr union swm a dalwyd i bob aelod (gweler rhan 6.0 isod).

Rhaid gweithredu’r canlynol:

2.14 Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un swydd uwch o fewn ei awdurdod ef neu hi.

2.15 Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.

2.16 Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.

2.17 Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill gyda nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

2.18 Ni all aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi ar eu cyfer.

## 3.0 Cynorthwyo gwaith aelodau etholedig awdurdodau lleol

3.1 Mae gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl benodol i sicrhau bod aelodau etholedig yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y materion hyn yn ffurfio rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2017/18.

## 4.0 Newidiadau eraill i'r Fframwaith Daliadau

### 4.1 Ad-dalu Costau Gofal (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel 'lwfans gofal')

4.1.1 Mae'r ddarpariaeth i ad-dalu costau gofal wedi'i bwriadu i alluogi unrhyw un y byddai ei gyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar allu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni ei rôl, neu roi cymorth gofal i aelod er mwyn galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni ei rôl. Mae'r Panel yn nodi bod rhai aelodau'n amharod i hawlio'r lwfans gofal, a hynny oherwydd pryderon y gall hyn ddenu cyhoeddusrwydd anffafriol.

4.1.2 Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn gysylltiedig â chyhoeddi'r treuliau dilys yma, ac fe adlewyrchir hyn yn yr opsiynau a roddir o ran cyhoeddi:

- Manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir; neu
- Cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod a enwir.

4.1.3 Mater i bob awdurdod yw penderfynu pa un o'r dewisiadau hyn ar gyfer cyhoeddi sy'n briodol yn ei dyb ef. Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar bob awdurdod i sefydlu ei safle ei hun ar sut i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae'n ei dderbyn o ran ad-dalu costau gofal.

4.1.4 Mae'r Panel o'r farn y dylai Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd gymryd camau i annog aelodau sy'n gymwys i hawlio'r ad-daliad hwn.

4.1.5 Argymhellir y dylai'r Cyngor hwn ddewis i gyhoeddi manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir.

## 4.2 Absenoldeb oherwydd salwch i ddeiliaid uwch gyflogau

4.2.1 Mae achosion wedi cael eu dwyn i sylw'r Panel sy'n ymwneud â deiliaid uwch gyflogau ar salwch hirdymor a'r annhegwch canfyddedig o'i gymharu â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. O ganlyniad, mae cynghorau'n wynebu'r cyfyng-gyngor canlynol:

- Gweithredu heb yr aelod unigol ond parhau i dalu'r uwch gyflog iddo.
- Disodli'r aelod sydd felly'n colli'r uwch gyflog (ond yn cadw'r cyflog sylfaenol).

4.2.2 Mae'r Panel wedi ystyried hyn ac mae'n diwygio'r Fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:

- Caiff salwch hirdymor ei ddiffinio fel absenoldebau ardystiedig y tu hwnt i 4 wythnos.
- Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (ond os bydd yn cael ei ailbenodi bydd unrhyw ran o'r 26 wythnos sy'n weddill yn cael ei chynnwys).
- O fewn y terfynau hyn gall deiliad uwch gyflog sydd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch barhau i gael cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu.
- Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ai peidio ond bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo yn gymwys i gael yr uwch gyflog sy'n briodol i'r swydd.
- Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch gyflogau sy'n berthnasol i'r awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn cael uwch gyflog. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod o weithrediaeth cyngor pe bai'n golygu bod y cabinet yn mynd y tu hwnt i 10 swydd – yr uchafswm statudol).
- Pan fo'r Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo, mae'n rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd disgwyliedig y trefniant dirprwyo. Mae'n rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod yn unol â hynny.
- Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig o brif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid uwch swyddi gan eu bod yn parhau i gael cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis ni waeth beth fo'u presenoldeb a mater i'r awdurdod yw unrhyw estyniad y tu hwnt i'r raddfa amser hon.

### 4.3 Ad-dalu costau teithio

Gall aelodau hawlio ad-daliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth (prydau a llety) lle mae’r rhain wedi deillio o ganlyniad i gyflawni dyletswyddau swyddogol. Mae treuliau a ad-delir i aelodau gan eu hawdurdod lleol wedi’u heithrio rhag Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y cyflogai.

Mae’r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid yn 2017/18 i’r cyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i’w hawlio.

Mae’r Panel yn ymwybodol bod aelodau ag anableddau wedi bod yn gyndyn o hawlio treuliau teithio dilys mewn rhai achosion oherwydd ymateb anffafriol yn dilyn cyhoeddi eu costau teithio. Fel dewis arall, gallai trefniadau teithio gael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod dan amgylchiadau o’r fath.

### 4.4 Ad-dalu costau cynhaliaeth

Mae ad-daliadau costau cynhaliaeth ar gyfer aelodau ac aelodau etholedig yn seiliedig ar y cyfraddau uchaf a nodir isod a bennwyd gan y Panel a hynny ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau’n aros gyda ffrindiau a/neu deulu:

- £28 y diwrnod – Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd
- wedi’i gynnwys yn y taliad dros nos
- £200 y noson - Llundain
- £95 y noson – rhywle arall
- £30 y noson – aros gyda ffrindiau a/neu deulu

## 5.0 Taliadau eraill

Nid yw’r Panel wedi pennu unrhyw newidiadau i’r canlynol ar gyfer 2017/18:

- Taliadau i aelodau cyfetholedig prif gynghorau
- Yr hawl i absenoldeb teuluol
- Darpariaeth pensiwn.

## 6.0 Cyhoeddi Datganiad o Daliadau a wnaed i Aelodau

6.1 Mae’r Panel yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn cyhoeddi datganiad, erbyn 30 Medi bob blwyddyn, o'r taliadau a wneir gan yr awdurdod i'w haelodau.

6.2 Mewn llythyr dyddiedig 17 Chwefror 2017 (copi ynghlwm), mae Cadeirydd y Panel yn nodi bod y Panel wedi adolygu cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r gofyniad statudol hwn ar gyfer blwyddyn ddinesig / ariannol 2015/16 ac wedi dod o hyd i ddiffyg cydymffurfio sylweddol. O'r 28 Datganiad a gynhyrchwyd ar gyfer 2015/16, dim ond 7 gafodd eu hanfon at y Panel cyn 30 Medi 2016. Mae'r Panel wedi nodi bod yr Awdurdod hwn yn un o'r 7 a oedd yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn ac a anfonodd y datganiad at y Panel yn uniongyrchol yn ogystal â gwneud y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

6.3 Mae'r Panel hefyd wedi nodi'i bryder ynghylch y diffyg cysondeb yn y wybodaeth a gynhyrchir ar draws awdurdodau ac, er budd tryloywder, wedi penderfynu cynhyrchu pro forma ar gyfer y Datganiadau o Daliadau a Wnaed i Aelodau. Mae pro forma drafft wedi cael ei gyhoeddi gan ysgrifenyddiaeth y Panel ar gyfer sylwadau. Pan gaiff ei gwblhau, mae'r Panel yn disgwyl i bob awdurdod ei ddefnyddio wrth lunio a chyhoeddi'r wybodaeth.

## 7.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

7.1 gadarnhau y dylid talu Uwch Gyflogau ar gyfer y 14 swydd canlynol yn ystod 2017/18:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (5)
Cadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf

7.2 ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Mawrth 2017 mewn perthynas â thalu uwch gyflogau (fel yr amlinellir ym mharagraff 2.11) a chadarnhau lefelau taliadau uwch gyflogau yn ystod 2017/18 ar gyfer:

- Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith
- Cadeiryddion Pwyllgorau
- Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig

7.3 fabwysiadu'r argymhelliad, a wnaed yn rhan 4.1 o'r adroddiad hwn, y dylai'r Cyngor gyhoeddi manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir o ran costau gofal.

7.4 nodi a mabwysiadu'r newidiadau eraill a bennwyd gan y Panel, fel y'u gosodir allan yn rhan 4.0 o'r adroddiad hwn.

7.5 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

**Marc Jones**
**Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog 151**

**12 Mai 2017**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2017)
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/170223-annual-report-cy.pdf

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

J Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir Ynys Mon

jhuwjones@anglesey.gov.uk

17 Chwefror 2017

Annwyl Huw

**Cyhoeddi Datganiad o Daliadau a Wnaed i Aelodau**

Fel y byddwch yn ymwybodol Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn cyhoeddi datganiad o'r taliadau a wneir gan yr awdurdod i'w aelodau erbyn 30ain Medi bob blwyddyn. Mae Atodiad 4 Adroddiad Blynyddol y Panel yn manylu ar y cynnwys sy'n ofynnol yn y datganiad cyhoeddedig.

Mae'r Panel wedi adolygu cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r gofyniad statudol hwn ar gyfer blwyddyn ddinesig / ariannol 2015/16 ac wedi dod o hyd i ddiffyg cydymffurfio sylweddol.

Mae'n rhaid i'r Datganiadau o Daliadau a Wnaed i Aelodau yn cael ei gyhoeddi mewn man hygyrch i'r cyhoedd, ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn y flwyddyn lle wnaed y taliadau . Rhaid iddo hefyd gael ei anfon at y Panel yn uniongyrchol erbyn 30 Medi, naill ai'n electronig neu drwy'r post. O'r 28 Datganiad a gynhyrchwyd ar gyfer 2015/16, dim ond 7 gafodd eu hanfon at y Panel cyn 30ain Medi 2016. Mae'r Panel wedi nodi bod eich awdurdod yn un o'r 7 a oedd yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn a anfonodd y datganiad at y Panel yn unigyrchol yn ogystal â gwneud y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.


Mae'r Panel hefyd yn pryderu ynghylch y diffyg cysondeb yn y wybodaeth a gynhyrchir ar draws awdurdodau ac er budd tryloywder wedi penderfynu cynhyrchu pro forma ar gyfer y Datganiadau o Daliadau a Wnaed i Aelodau. Bydd pro forma drafft yn cael ei gyhoeddi gan ysgrifenyddiaeth y Panel yn fuan ar gyfer eich sylwadau. Pan gaiff ei gwblhau yr ydym yn disgwyl i bob awdurdod i'w ddefnyddio wrth lunio a chyhoeddi'r wybodaeth.

Ystafell /Room M05
Llawr Cyntaf/First Floor
Adeiladau Coron/Crown Buildings
Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 029 2080 1047
Ebost/Email: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
www.remunerationpanelwales.org.uk
www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk

Mae'r Panel hefyd yn ymwybodol bod nifer o gynghorwyr wedi arfer eu hawl i hepgor rhan neu'r cyfan o'u cyflog. Lle mae hyn yn wir, dylai swyddogion ddangos yn glir ar y datganiad pa ganran o'r cyflog wedi cael ei hildio a chan bwy.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd

Ystafell /Room M05
Llawr Cyntaf/First Floor
Adeiladau Coron/Crown Buildings
Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 029 2080 1047

Ebost/Email: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
www.remunerationpanelwales.org.uk
www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk